Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

# Llywodraeth Cymru
# Rheoleiddio Tai

Dyfarniad Rheoleiddio

Cymdeithas Tai Bro Myrddin – L069

Mai 2019

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau o dan Ran 1 o Ddeddf Tai 1996 i reoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig mewn perthynas â'u darpariaeth o ran tai ac mewn perthynas â materion yn ymwneud â llywodraethu a rheolaeth ariannol.

Mae Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi'r Dyfarniad Rheoleiddio hwn o dan adran 33A a 35 o Ddeddf Tai 1996.

Cyhoeddir y dyfarniad hwn yn unol â'r Fframwaith Rheoleiddiol ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru a'r safonau perfformio cysylltiedig.

http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/services-and-support/regulation/regulatory-framework/?skip=1&lang=cy

Mae'r dyfarniad yn seiliedig ar werthusiad y Gymdeithas ei hun o'i chydymffurfiaeth â'r safonau perfformiad ynghyd â gwybodaeth reoleiddiol a feithrinwyd drwy drefniadau rheoli cydberthynas cydreoleiddiol parhaus rhwng y Rheoleiddiwr a'r Gymdeithas.

## Sail y Dyfarniad

Nod y dyfarniad hwn yw rhoi dealltwriaeth i'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, ei denantiaid, defnyddwyr y gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill o'i hyfywedd ariannol a pha mor dda y mae'n perfformio, ar adeg benodol mewn perthynas â:

- Llywodraethu a Darparu Gwasanaethau
- Rheolaeth Ariannol

Ni ddylai unrhyw barti arall ddibynnu ar y dyfarniad hwn at unrhyw ddiben arall. Y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig sy'n gyfrifol am ba mor gyflawn a chywir yw'r wybodaeth a roddwyd i'r Rheoleiddiwr.

Tîm Rheoleiddio Tai
Llywodraeth Cymru
Swyddfa Merthyr Tudful
Rhyd-y-car
CF48 1UZ
e-bost: housingregulation@gov.wales

ISBN Digidol 978-1-78964-835-5
Hawlfraint y Goron 2019

# Proffil

Mae Cymdeithas Tai Bro Myrddin ("Bro Myrddin" neu “y Gymdeithas”) yn gymdeithas dai draddodiadol gofrestrwyd o dan Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 ac mae ganddi reolau elusennol.

Mae Bro Myrddin yn berchen ar 888 o gartrefi (ar yr 31 Mawrth 2019) ac yn eu rheoli yn ardal Cyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Sir Benfro. Maent yn cynnwys chartrefi anghenion cyffredinol, dau eiddo perchenogaeth ar y cyd a dau gartref gofal a lle i wyth gwely.

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018, trosiant y Gymdeithas oedd £5.1m (2017: £4.6m), y gwarged a gadwyd ganddi oedd £792k (2017: £643k) ac roedd yn cyflogi 38 o aelodau o staff (2017: 40).

## Data Ariannol Allweddol

| | Data Hanesyddol | | Terfyn Cyfamod | Cyfartaledd ar gyfer y Sector |
|---|---|---|---|---|
| | 2016/17 | 2017/18 | | 2016/17 |
| **Perfformiad** | | | | |
| Gwarged gweithredu fel % o'r trosiant | 23.4% | 24.0% | n/a | 21.3% |
| Gwarged ar gyfer y flwyddyn fel % o'r trosiant | 13.9% | 15.6% | n/a | 6.5% |
| Colled o eiddo gwag a rhent heb ei gasglu fel % o'r incwm o renti | 1.9% | 1.8% | n/a | 2.0% |
| | | | | |
| **Cyllid** | | | | |
| Benthyciadau sefydlog fel % o'r cyfanswm | 68% | 59% | n/a | 74% |
| Geriad | 39% | 40% | 55% * | 61% |
| Sicrwydd llog | 181% | 160% | 120% * | 172% |
| Mae'r balansau arian parod cyfredol a'r cyfleusterau heb eu tynnu yn ddigonol i'r Gymdeithas gwblhau'r rhaglen ddatblygu y mae wedi ymrwymo iddi.<br>* Mae’r terfyn Cyfamod Gerio bellach wedi’i gynyddu i 60%, ac mae’r terfyn icrwydd llog wedi’i leihau i 110%. | | | | |

# Dyfarniad Rheoleiddio – Statws Cydreoleiddio

## Statws Cydreoleiddio – Mai 2019

**Llywodraethu a Gwasanaethau – Safonol**

- Yn nodi ac yn rheoli risgiau newydd a risgiau sy'n datblygu yn briodol.

**Hyfywedd Ariannol – Safonol**

- Yn bodloni gofynion o ran hyfywedd ac mae gan y Gymdeithas yr adnoddau ariannol i ymdrin â senarios yn briodol.